

# Astudiaeth Achos: Animeiddiwr cyfrifiadurol - John

## Beth ydych chi'n ei wneud?

Rwy'n animeiddiwr i gwmni rhynggrwyd. Rwy'n gwneud tri math o waith animeiddio mewn gwirionedd. Rwy'n gwneud gwaith animeiddio graffigol, gwaith animeiddio diwydiannol a gwaith animeiddio darluniadol syml sy'n seiliedig ar eiriau ar gyfer y rhynggrwyd.

Mae'r gwaith animeiddio graffigol yn seiliedig ar gymeriadau, mae'r gwaith animeiddio diwydiannol yn ymwneud ag animeiddio ar sail taflenni neu logo cwmni, ac mae animeiddio darluniadol yn ymwneud â gwybodaeth gyffredinol sy'n seiliedig ar eiriau.



## Beth yw'ch cefndir?

Rwyf wedi bod yn gwneud y swydd hon ers tair blynedd. Rwyf wedi bod yn y diwydiant ers pedair i bum mlynedd.

Dechreuais weithio ym maes dylunio gwefannau, yna symudais ymlaen yn naturiol i weithio ar yr agwedd animeiddio. Mae'r gwaith hwnnw wedi ehangu ychydig, ac wrth i'r busnes ddatblygu trodd animeiddio yn faes mwy llewyrchus a mwy penodol i ni ganolbwyntio arno.

## Pa nodweddion sydd eu hangen i fod yn llwyddiannus yn eich swydd chi?

Rwy'n credu bod angen i chi fod yn berson 'artistig' yn bennaf. Ond, mae llawer o dechnoleg yn cael ei defnyddio yn y gwaith erbyn hyn, felly mae'n debyg y bydd angen i chi ddysgu defnyddio llawer o becynnau dylunio, yn enwedig yn y math o waith animeiddio rwy'n ei wneud. Byddwn i'n dweud bod angen i chi gael cydbwysedd da rhwng y ddau beth hyn.

Mae angen i chi fod yn eithaf chwilfrydig. Mae angen i chi fod yn gallu gwneud ymchwil adeiladol hefyd, yn enwedig ar y rhynggrwyd.

## Pa swyddi eraill allech chi ei wneud gan ddefnyddio'r sgiliau o'r swydd hon?

Rwy'n credu y gallai'r sgiliau y mae eu hangen i wneud y math hwn o waith celf gael eu trosglwyddo i sawl maes. Yn sicr gallech chi symud ymlaen i wneud gwaith celf print, gan fod llawer o'r sgiliau'n gorgyffwrdd. Gallech chi hefyd symud i faes animeiddio traddodiadol, ond byddwn i'n dweud bod angen set ychwanegol o sgiliau arnoch i wneud y gwaith hwnnw.

Gallech chi fod yn ddarlunydd hefyd; mewn gwirionedd gallech chi wneud unrhyw swydd lle rydych chi'n cynhyrchu gwaith celf gwreiddiol.

## Pa newidiadau fydd yn y dyfodol?

Rwy'n credu bod y prif newidiadau dros y blynyddoedd diwethaf yn ymwneud â hygyrchedd, ac nid wyf yn gweld hynny'n newid. Mae cryn dipyn o dechnoleg yn gysylltiedig â'r maes hwn, ac mae'n dod yn fwy hygyrch erbyn hyn.

Mae llawer o ddatblygiadau diweddar, a symudiadau diweddar yn y cyfryngau, wedi bod yn gysylltiedig â chreu'r mathau o dechnoleg a fydd yn awtomeiddio gwaith animeiddio. Mae hynny i gyd ar flaenau ein bysedd erbyn hyn. Mae'n hawdd iawn cael gafael ar ddeunydd fideo i'ch helpu i greu animeiddiad, er enghraifft os byddwch am efelychu osgo cymeriadau.

## Beth yw heriau mwyaf eich swydd?

Mae dwy elfen i'r agweddau heriol. Yr elfen gyntaf yw'r cyfyngiadau busnes ar waith celf; nid yw celf a busnes bob amser yn cyd-fynd yn rhwydd. Rydych chi am greu'r pethau gorau posibl o safbwynt artistig. Ond, yn amlwg mae amser ac arian yn cyfyngu ar eich gallu i wneud hynny.

Yn ail, mae gweithio gyda chwsmeriaid yn gallu bod yn her, mewn ffordd gadarnhaol. Yn fy swydd i, mae'n rhaid i chi ddilyn briff a dod â'r hyn y mae pobl wedi'i ddychmygu yn fyw. A dydy pobl ddim bob amser yn gallu mynegi'r hyn y maen nhw'n ei feddwl; ac mae hynny'n gweithio'r ddwy ffordd!

Weithiau, mae'n anodd creu gwaith celf allan o syniad haniaethol. Ond fel y soniais, her gadarnhaol yw hon, nid her negyddol!

## Oes nifer o gyfleoedd i fynd i mewn i'r yrfa hon?

Rwy'n credu ei bod yn hawdd cael eich pig i mewn i'r maes. Mae digonedd o gyfleoedd ar gael ym maes dylunio amlgyfrwng a'r we, ac mae'r farchnad hon yn ehangu o hyd.

Mae'n dibynnu ar faint y sefydliad. Bydd rhai sefydliadau'n cyflogi animeiddwyr llawn amser, neu weithiau bydd animeiddio'n rhan o swydd. Ond byddwch chi'n sicr yn gallu cael rhyw fath o brofiad er mwyn symud ymlaen i weithio yn y maes yn llawn amser, os byddwch chi'n dymuno.

## Beth ydych chi'n ei hoffi am eich swydd?

Rwy'n hoffi'r agwedd greadigol o'r gwaith. Rwy'n hoffi'r ffaith eich bod chi'n gallu cael syniadau a'u gwireddu.

Rwy'n hoffi gweithio gyda chwsmeriaid hefyd. Efallai eich bod chi, wrth weithio mewn maes artistig, yn gwneud pethau nad oes gan bobl eraill yr amser i'w wneud, neu bethau nad yw pobl eraill yn gallu eu gwneud eu hunain. Pan fydd pethau'n mynd yn iawn, mae'n braf gweld brwdfrydedd pobl a phobl sy'n fodlon â'r pethau rydych chi'n eu gwneud.

Rwy'n hoffi'r agwedd greadigol: cael eistedd i lawr â thudalen neu sgrîn wag un bore a gorffen prosiect...wythnos neu ddwy yn ddiweddarach!

## Beth nad ydych chi'n ei hoffi am eich swydd?

Weithiau, mae'n anodd ymdopi â'r cyfyngiadau ar eich gwaith 'celf'; mae'r cyfyngiadau busnes yn gweithio yn eich erbyn i ryw raddau. Weithiau bydd gofyn i chi greu neu orffen pethau llawer yn gynt nag y byddech chi'n dymuno. Am wn i, cyfaddawd yw'r cyfan, ond dyna'r prif beth dydw i ddim yn ei hoffi.

Pe bawn i'n gallu eistedd i lawr a gwneud gwaith celf drwy'r amser, neu animeiddio a gwneud beth bynnag sy'n ddoniol yn fy marn i, byddai'r swydd yn berffaith. Ond yn amlwg dydych chi ddim yn gwneud yn union beth rydych chi am ei wneud. Mae hynny'n wir am unrhyw swydd, am wn i.

## Beth yw'ch uchelgeisiau?

Byddwn i'n hoffi gwneud llawer o bethau. Rwy'n mwynhau creu; rwy'n hoffi creu pethau.

Rwy'n credu y byddwn i fwy na thebyg yn hoffi symud ymlaen i wneud gwaith animeiddio ar gyfer y cyfryngau. Rwy'n credu y byddwn i'n cael llawer o foddhad o greu cymeriad allan o ddim byd; rhoi bywyd i'r cymeriad a datblygu rhyw fath o raglen - rhywbeth a fyddai'n gwneud i mi a fy ffrindiau chwerthin i ddechrau. Os gallaf wneud rhywbeth arall â'r cymeriad wedyn byddai hynny'n well byth.

Byddwn i'n hoffi ysgrifennu hefyd - ysgrifennu llyfr. Hoffwn weld a fyddwn i'n gallu ysgrifennu nofel!

Dyna ni mewn gwirionedd. Creu yw'r prif air. Os gallaf greu rhywbeth o ddim byd, mae'n siwr y byddai hynny'n fy ngwneud i'n hapus. Byddwn yn hapusach fyth pe bawn i'n gallu gwneud bywoliaeth o hynny.

## Pa gyngor fyddwch chi'n ei rhoi i rywun sydd â diddordeb yn eich gyrfa chi?

Dylech chi greu eich arddull eich hun. Penderfynwch yn gyntaf beth rydych am ei wneud. Os ydych am weithio i bobl eraill ac os nad ydych o reidrydd yn gallu creu rhywbeth o ddim byd, efallai y bydd yn rhaid i chi chwilio am gwmni arall i weithio iddo.

Gallwch fynd ati eich hun a datblygu arddull bersonol. Os ydych am fynd i faes animeiddio cartwnau yn benodol, byddwn i'n awgrymu y dylech chi ddechrau gyda dwl, rhywbeth sy'n gwneud i chi chwerthin ac sy'n eich gwneud chi'n frwdfrydig, ac ewch o'r fan honno.

Mae digon o lyfrau ar gael ar y pwnc. Gallwch wneud digon o waith ymchwil hefyd i weld beth mae pobl eraill yn ei

wneud. Ond fy nghyngor i fyddai y dylech chi fynd amdani, cael hwyl a gweld a allwch wneud gyrfa ohoni.

## Diwrnod ym mywyd

Mae'n debyg y byddai rhai o'r tasgau canlynol yn cymryd drwy'r dydd (dros sawl diwrnod) i mi eu cyflawni. Ond rwyf wedi rhannu'r tasgau dros gyfnod o ddiwrnod er mwyn dangos ychydig o amrywiaeth.

8:30 yb - 8:40 yb

Y dasg gyntaf yw darllen negeseuon ebost ac ymateb iddynt.

8:40 yb - 10:00 yb

Creu bwrdd stori o animeiddiad ar gyfer ymgyrch hyrwyddo ar y rhyngwrwyd gan ddefnyddio briff dylunio y cytunwyd arno yn flaenorol. Mae syniadau'n llifo'n haws pan fyddwch chi heb ddihuno'n iawn.

10.00 yb - 10:20 yb

Coffi er mwyn dihuo.

10.20 yb - 12:30 yb

Dechrau gweithio ar animeiddiad ar gyfer CD hyrwyddo. Mae'r cymeriadau eisoes wedi'u dylunio ac mae'n bryd gwneud y gwaith diddorol - gwneud i'r cymeriadau symud a rhyngweithio â'i gilydd (mae amser yn hedfan pan fyddaf yn gwneud y math hwn o waith).

12.30 yb - 1.30 yb

Cinio.

1.30 yb - 2.30 yb

Ymchwil. Mae'n syniad da edrych ar gymaint ag sy'n bosibl o enghreifftiau o'r grefft. Byddaf yn edrych ar wefannau a llyfrau er mwyn cael ysbrydoliaeth a gwybodaeth dechnegol.

2.30 yb - 3.00 yb

Creu/darganfod/ymchwilio rhai synau ar gyfer yr animeiddiad. (Gall synau a thwrw eich cadw chi ar ddi-hun pan fyddwch yn dechrau blino ganol y prynhawn).

3.00 yb - 3.20 yb

Paned o de.

3.20 yb - 4.20 yb

Dechrau ychwanegu sain at yr animeiddiad.

4.20 yb - 5.20 yb

Creu gwefan fach a lawrlwytho animeiddiad iddi, er mwyn i gleient rhyngwladol allu gweld hysbyseb faner wedi'i hanimeiddio. Ebstio neu ffonio'r cleient i drafod y gwaith. Cofnodi adborth a nodi unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud.

5.20 yb - 5.45 yb

Gwneud gwaith papur diflas.

Yn nes ymlaen

Weithiau byddaf yn meddwl am ddarnau diddorol neu anodd o'r gwaith (gan gadw papur a phensil wrth law). Byddaf yn dwldan weithiau.